

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Y Prif Weinidog

17 Ebrill 2018

Annwyl Brif Weinidog

Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Ysgrifennaf mewn perthynas ag adroddiad diweddar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ("yr adroddiad") ar **Graffu ar reoliadau a wnaed o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)** ("y Bil").

Yn benodol, hoffwn godi materion yn ymwneud â'ch llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dyddiedig 5 Chwefror; y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr adroddiad ar 7 Mawrth, yr ymateb ffurfiol i'r adroddiad gan Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip dyddiedig 27 Mawrth, a'ch llythyr dyddiedig 29 Mawrth at Ysgrifennydd Gwladol Cymru sy'n ymwneud â'r adroddiad ar y Bil a darpariaethau ei bwyllgor sifftio.

Byddwch yn ymwybodol bod ein hymchwiliad a'r adroddiad dilynol yn ystyried pa mor briodol yw cwmpas a natur y pwerau dirprwyedig a ddarperir yn y Bil i Weinidogion y DU a Chymru, a'r gweithdrefnau i'w defnyddio i graffu ar y ddeddfwriaeth ddirprwyedig honno. O ystyried taith y Bil drwy Dŷ'r Arglwyddi, roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar welliannau y credem y dylid eu gwneud i'r Bil, ac yn mynd i'r afael â chwestiynau a godwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn llythyr at y Llywydd ar 16 Ionawr.

Gwnaeth ein hadroddiad saith argymhelliad, pedwar ohonynt yn argymell gwelliannau i'r Bil. Am y rheswm hwnnw, credem ei fod yn briodol gofyn barn y Cynulliad Cenedlaethol ar yr argymhellion hynny, ac roedd y cynnig yn gofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol nodi adroddiad y pwyllgor hefyd yn gofyn iddo gymeradwyo argymhellion 1, 2, 4 a 7.



Ar 7 Mawrth, derbyniwyd y cynnig yn ddiwrthwynebiad a rhoddodd y Cynulliad Cenedlaethol gefnogaeth unfrydol i'r argymhellion hynny. O ganlyniad, ar 22 Mawrth, ysgrifennodd y Llywydd at Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan dynnu ei sylw at yr argymhellion hynny a gofyn iddo dderbyn y llythyr fel hysbysiad ffurfiol o safbwynt Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ran pa welliannau y dylid eu gwneud i'r Bil mewn perthynas â gweithdrefnau ar gyfer craffu ar is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan ei ddarpariaethau.

Yn wyneb y digwyddiadau a'r ohebiaeth yr wyf yn cyfeirio atynt uchod, hoffwn ofyn am eglurhad gennych am y rhesymau dros yr ymagwedd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i mabwysiadu. Yn benodol, byddwn yn ddiolchgar pe gallech esbonio pam, ar ôl i chi ddweud yn eich llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol ar 5 Chwefror mai'r Cynulliad Cenedlaethol oedd i benderfynu ar faterion yn ymwneud â'r pwyllgor sifftio, y gwnaethoch ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedyn ar 29 Mawrth yn gwrthod argymhelliad a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â gweithrediad y pwyllgor sifftio hwnnw. Roedd y gymeradwyaeth honno gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unfrydol ac yn cynnwys cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.

Rwy'n cydnabod bod Arweinydd y Tŷ wedi dweud wrth y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn nad yw Llywodraeth Cymru am fynegi ei safbwynt ar argymhelliad 2 nes ei bod wedi ystyried y mater yn drylwyr. Fodd bynnag, nid oedd Arweinydd y Tŷ wedi gofyn am ddiwygio'r cynnig i adlewyrchu'r safbwynt hwnnw, a gafodd, fel y nodwyd yn flaenorol, ei gymeradwyo'n unfrydol.

Heb niweidio ewyllys unrhyw Lywodraeth, ni ddylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ganfod ei hun mewn sefyllfa lle mae'n mynegi safbwynt hollbleidiol, ffurfiol sydd wedi hynny, ac yn fuan iawn wedyn, yn destun amheuaeth mewn gohebiaeth nad yw'r Cynulliad yn ymwybodol ohoni. Fel y byddwch yn gwerthfawrogi, fel pwyllgor, yr ydym yn bryderus yn gyffredinol ynglŷn â throsglwyddo pŵer o ddeddfwrfeydd i adrannau gweithredol. Mae'r ymagwedd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i mabwysiadu ar y materion hyn yn tanseilio hawl y ddeddfwrfa.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych cyn gynted â phosibl. Rwy'n ysgrifennu at y Llywydd ar wahân ynglŷn â'r mater hwn.



Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip;

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath the name.

Mick Antoniw

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

